Ofcom

# Bwletin Broadcast and On Demand

Rhifyn 525, 30 Mehefin 2025



## Nodyn i Ddarlledwyr – gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig ar gyfer ymchwilio i dorri amodau trwyddedau darlledu (y "Gweithdrefnau Cyffredinol")

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ar 23 Mehefin 2025 cyhoeddwyd ein datganiad yn diwygio'r gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer ymchwilio i dorri amodau trwyddedau darlledu ochr yn ochr â fersiwn newydd o'r Gweithdrefnau Cyffredinol.

Gan nad oedd y newidiadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr newid eu prosesau, daeth y fersiwn newydd o'r Gweithdrefnau Cyffredinol i rym ar 23 Mehefin 2025 ac mae'n berthnasol i unrhyw gwynion, asesiadau ac ymchwiliadau a dderbynnir o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Bydd unrhyw asesiadau neu ymchwiliadau (naill ai o ganlyniad i gŵyn neu a gychwynnwyd gan Ofcom) a agorwyd cyn 23 Mehefin 2025 yn cael eu trin o dan y fersiwn o'r Gweithdrefnau Cyffredinol a oedd mewn grym ar yr adeg y agorwyd yr achos.

Mae holl ddogfennau gweithdrefnol Ofcom ar gael ar wefan Ofcom. Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn berthnasol i dorri amodau trwydded darlledu nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau penodol a nodir isod:

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfedd darlledwyr â gofynion cynnwys a nodir yng Nghod Darlledu Ofcom a chodau eraill gan gynnwys y Cod Trawshyrwyddo; y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu; a Chod y DU ar gyfer Darlledu Hysbysebion Pwyllgor Darlledu Arferion Hysbysebu.** | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. |
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfiaeth darlledwyr â Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda ("Rheolau PPRB").** | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau Rheolau PPRB. |

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| **Ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu ac ar y radio, a chydymffurfiaeth darlledwyr â "chod tegwch" Ofcom dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996.** | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd. |
| **Amodau trwydded a chodau perthnasol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau darlledu.** | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth mewn trwyddedau dan y Ddeddf Darlledu. |
| **Y Cod ar Amserlenni Rhaglenni Electronig, sy'n nodi'r arferion i'w dilyn gan ddarparwyr Amserlenni Rhaglenni Electronig er mwyn (i) rhoi amlygrwydd priodol i sianeli gwasanaeth cyhoeddus, (ii) darparu'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen i alluogi pobl sydd ag anableddau i ddefnyddio Amserlenni Rhaglenni Electronig a (iii) sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol.** | Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn defnyddio'r Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau o dan y Ddeddf Darlledu ar gyfer achosion o dorri amodau (iii), a'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn ar gyfer achosion o dorri amodau (i) a (ii). |